# Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil

## Strategaeth a Chynllun Busnes 2014-17

Fersiwn cyhoeddus

## Cyflwyniad

Mae’r strategaeth a chynllun busnes hwn yn sefydlu ein hamcanion strategol mewn un lle ar gyfer y tair blynedd nesaf ynghyd â’r blaenoriaethau strategol ategol ac elfennau allweddol i’w cyflawni.

Bydd yn sicrhau bod gan ein pobl i gyd ymdeimlad clir o’n cenhadaeth ac mae’n sefydlu’r ‘contract’ ar gyfer cyflawni rhwng y Tîm Gweithredol a Bwrdd yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil. Bydd hefyd yn darparu meincnod i fesur ein perfformiad yn ei erbyn.

Rydym yn neilltuo cyfrifoldeb i bob aelod o’r Tîm Gweithredol ar gyfer un o’n pedwar amcan strategol , er bod cyflawniad llwyddiannus ein strategaeth a chynllun busnes yn dibynnu ar greu partneriaethau tu fewn a thu allan i’r Gwnstabliaeth Niwclear Sifil (CNC) a gweithio traws-swyddogaethol ar bob lefel yn y Gwnstabliaeth.

Bydd cyhoeddi ein strategaeth a chynllun busnes yn cynyddu atebolrwydd o ran ein perfformiad i’n cwsmeriaid, aelodau’r cyhoedd a’n rhanddeiliaid allweddol eraill.



**Mike Griffiths**
Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Gwnstabl

## Cyd-destun Strategol

Dylanwadir ar y cyd-destun strategol y bydd yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (CNPA) yn gweithredu ynddo dros y 3 mlynedd nesaf gan strategaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer trechu terfysgaeth, CONTEST, y cyfundrefnau rheoleiddio ac archwilio y mae’n gweithredu ynddynt a pholisi’r llywodraeth ar ddatgomisiynu niwclear. Mae dylanwadau nad ydynt yn weithredol yn cynnwys polisi’r llywodraeth ar ddiwygiadau i’r gwasanaeth sifil. Disgrifir effaith y dylanwadau hyn ar strategaeth a chynllun busnes y CNPA isod:

### CONTEST

Mae strategaeth CONTEST y Llywodraeth yn parhau mewn bod a bydd gwaith y CNPA i alinio i hyn yn parhau i gael ei ddwyn ymlaen yn 2014-17 a’i gyflawni trwy flaenoriaethau strategol 1 a 2 yn ogystal ag ymgodiadau mewn galluogrwydd a medrau swyddogion drylliau awdurdodedig.

### Cyfundrefnau Rheoleiddio ac Archwilio

Mae’r Rhagdybiaethau Cynllunio Galluogrwydd Maleisus Diwydiannau Niwclear (NIMCA) yn dal mewn bod. Mae gweithrediad blaenorol o’r NIMCA ac Asesiadau Gwendid fesul safle wedi arwain at raglen o ymgodiadau galluogrwydd a medrau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn 2014-17 ynghyd ag argymhellion HMIC, er enghraifft, datblygu galluogrwydd adferiad trwy flaenoriaethau strategol 1 a 2.

Mae gofynion rheoleiddiol hefyd yn ysgogi meysydd busnes newydd. Mae hyn yn arwain at leoliad newydd i swyddogion yn rhai o’r safleoedd wedi ei osod yn erbyn tynnu allan o eraill ac ymgodiad mewn

hebryngyddion i gefnogi symudiad deunyddiau o Dounreay i Sellafield yn unol ag amserlenni datgomisiynu diwygiedig yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Dounreay Site Restoration Limited.  Yn ystod 2014-17, bydd y CNC yn parhau i gefnogi Menter Lleihau Bygythiad Byd Eang yr Unol Daleithiau trwy ei hebryngyddion arfog.  Bydd ein swyddogion hefyd yn cefnogi gwaredu deunyddiau niwclear o'r adweithydd ymchwil a weithredir gan Imperial College.

Bydd unrhyw newidiadau i'r gofyniad gweithredol, naill ai trwy newidiadau i bolisi gwrthderfysgaeth y Llywodraeth neu newidiadau i gyfundrefn reoleiddio'r CNPA, yn cael eu nodi ac fe asesir y goblygiadau trwy'r asesiad bygythiad a risg strategol blynyddol.

### Gwasanaethau a Rennir Cenhedlaeth Newydd

Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfrifoldeb ar Adrannau'r Llywodraeth a Chyrff Hyd Braich i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella effeithlonrwydd trwy rannu gwasanaethau corfforaethol ar draws llywodraeth ganolog.  Elfen allweddol o raglen trawsnewid busnes y CNPA dan flaenoriaeth strategol 4 yw trosglwyddo cyflawniad ei swyddogaethau trafodion AD, cyllid, cyflogres a chaffael craidd i arvato, darparwr gwasanaethau a rennir wedi ei leoli yn Abertawe.

### Strategaeth TGCh y Llywodraeth

Un o nodau allweddol y strategaeth hon yw gwella effeithlonrwydd trwy greu seilwaith gwybodaeth, cyfathrebu a thechnoleg (TGCh) gyffredin sy'n cynnwys cyfuno rhwydweithiau, meddalwedd ac asedau a symudiad tuag at gyfrifiadura cwmwl:  daw contractau presennol y CNPA ar gyfer darpariaeth gwasanaethau rhwydwaith a TGCh ehangach i ben yn gynnar yn 2014/15, er y sicrhawyd estyniad ar y contract o 12 mis.

Yn ystod 2014-17 bydd angen i'r CNPA symud i rwydwaith amgen a darparwyr gwasanaethau TGCh newydd.  Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen dan flaenoriaeth strategol 4 a rhaglen y CNPA o foderneiddio TG.

# Ein uchelgais

I gael ei gydnabod fel awdurdod blaenllaw'r Deyrnas Unedig ar ddiogelu arfog cyfleusterau a deunyddiau niwclear sifil wrth eu symud.

# Ein cenhadaeth

Mewn partneriaeth â'r diwydiant niwclear sifil, asiantaethau diogelwch cenedlaethol a chyrff rheoleiddio, bydd y CNC yn atal unrhyw ymosodwr sydd â'r bwriad o ddwyn neu ddifrodi deunydd niwclear, p'un a yw'n sefydlog neu ar daith. Os bydd ymosodiad yn digwydd, bydd y CNC yn amddiffyn y deunydd hwnnw ac yn gwrthod mynediad iddo. Os yw'r deunydd yn cael ei gipio neu os bydd cyfleusterau canlyniadau uchel yn cael eu peryglu, bydd y CNC yn adfer rheolaeth o'r cyfleuster ac yn adennill cystodaeth o'r deunydd.

# Ein hamcanion strategol

| Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 | Amcan 4 |
| --- | --- | --- | --- |
| • I **atal a rhwystro** bygythiadau diffiniedig NIMCA i safleoedd niwclear a deunyddiau a hebryngir | • I ddatblygu a chynnal ein **gallu i ymateb** i fygythiadau diffiniedig NIMCA i safleoedd niwclear a deunyddiau a hebryngir | • I sicrhau **hyder ein rhanddeiliaid** o ran cyflawni ein huchelgais a chenhadaeth | • I optimeiddio ein **heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd** wrth gyflawni ein gwasanaethau |
| **Cyfarwyddwr Gweithrediadau** | **Cyfarwyddwyr Galluogrwydd** | **Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes** |
| **Blaenoriaethau**<br>• Cynnal ymateb arfog 24/7 mewn safleoedd niwclear sifil<br>• Darparu hebryngyddion arfog ar gyfer symud deunyddiau niwclear<br>• Rhaglen ymgodiad llawn a lleihad yn lefelau lleoliadau | **Blaenoriaethau**<br>• Datblygu polisïau / athrawiaethau integredig trwy fecanweithiau sicrwydd cryf<br>• Cynyddu lefelau galluogrwydd gweithredol trwy ein rhaglenni hyfforddiant ac ymarferion<br>• Gweithredu systemau awdurdod a rheoli ar draws y CNC<br>• Darparu galluogrwydd adfer ar safleoedd categori (CAT) 1<br>• Datblygu ein harweinwyr a rheolwyr gweithredol | **Blaenoriaethau**<br>• Cynyddu hyder rhanddeiliaid allanol a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, yn arbennig gyda Chwmnïau Trwydded Safle (SLCs), heddluoedd lleol a'n hadran nawdd<br>• Adeiladu cydweithredu a gwaith partneriaeth yn fewnol ar draws y CNC<br>• Cynyddu morâl a gwella datblygiad, perfformiad a dargadw ein pobl<br>• Cyflawni ymgysylltu a chyfathrebu effaith uchel | **Blaenoriaethau**<br>• Cyflawniad effeithiol o wasanaethau cefnogaeth corfforaethol<br>• Defnyddio effeithlonrwydd ein busnes<br>• Moderneiddio a gwella ein seilwaith TGCh a gwella ei ddiogelwch<br>• Datblygu ein harweinwyr a rheolwyr corfforaethol |

# Blaenoriaeth Strategol 1

## Rhwystro ac Ataliaeth

**Erbyn Mawrth 2017 byddwn:**

- Wedi cynnal ymateb arfog 24/7 mewn safleoedd niwclear sifil
- Wedi parhau i ddarparu hebryngyddion arfog ar gyfer symud deunyddiau niwclear
- Wedi cwblhau'r rhaglen ymgodi bresennol, cynyddu ein lefelau lleoliad Awdurdodau Drylliau Awdurdodedig (AFO) (yn cynnwys hebryngyddion) a Hyfforddwyr Drylliau

# Canlyniad KPI

1. Lleoliad llwyddiannus o niferoedd arfaethedig / targed o AFOs (yn cynnwys hebryngyddion)

| Elfennau allweddol i'w cyflawni | Metrigau allbwn | Amserlen |
|---|---|---|
| **Cyflawni ein cenhadaeth graidd** | | |
| ➢ Darparu ymateb arfog mewn safleoedd niwclear sifil 24/7 (1.1) | • Fe fesurir perfformiad yn erbyn gofynion cynllun diogelwch y safle<br>• Cyflawni lefelau adnoddau a lleoliad AFO arfaethedig | • Parhaus |
| ➢ Symud deunyddiau niwclear gyda hebryngyddion arfog(1.2) | • Cynlluniau Diogelwch Cludiant a gymeradwywyd gan y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear (Diogelwch Niwclear Sifil) | • I amserau a gytunwyd gyda CNC / y cwsmer |
| **Ymgodiad capasiti / tynnu allan** | | |
| ➢ Cwblhau ymgodiadau yn safleoedd EDF Energy a lleoli galluogrwydd gweithredol llawn (1.3) | • Lleoli AFOs atodol | • Rhagfyr 2015 |
| ➢ Cwblhau ymgodiad Grŵp Hebrwng Strategol (SEG) (yn cynnwys ymgodiad ar gyfer symudiadau o danwyddau nad ydynt yn arbelydredig) (1.4) | • Swyddogion SEG atodol yn cynnwys nifer o symudiadau o danwyddau nad ydynt yn arbelydredig | • Ymgodiad SEG erbyn Mawrth 2015<br>• Erbyn 2014 ar gyfer symudiadau tanwyddau nad ydynt yn arbelydredig |
| ➢ Cwblhau ymgodiad ar gyfer cyfleuster cyflyru tanwyddau nad ydynt yn arbelydredig a lleoli galluogrwydd gweithredol llawn (1.5) | • Lleoli AFOs atodol | • Medi 2014 |
| ➢ Cwblhau ymgodiad Labordy Niwclear Cenedlaethol a lleoli galluogrwydd gweithredol llawn (1.6) | • Lleoli AFOs atodol | • Gorffennaf 2015 |
| ➢ Trosi i fodel plismona newydd yn Harwell (1.7) | • Gweithredu model plismona a gytunwyd gyda Research Site Restoration Limited | • Mawrth 2015 |
| ➢ Recriwtio hyfforddwyr drylliau i lefelau adnoddau a gytunwyd (1.8) | • Recriwtio hyfforddwyr drylliau | • Mawrth 2015 |
| ➢ Tynnu allan o safle Wylfa (1.9) | • Ail-leoli personél CNC | • 2016/17 |
| **Galluogwyr allweddol** | | |
| ➢ Gweithredu strategaeth gwybodaeth (1.10) | • I'w ddiffinio yn dilyn cymeradwyaeth gofyniad gweithredol y Gangen Arbennig | • Erbyn Mawrth 2015 |
| ➢ Rhaglen Cudd-wybodaeth Gyffredin Genedlaethol APOLLO) (1.11) | • Mudo'n llwyddiannus o System Cudd-wybodaeth Genedlaethol y Gangen Arbennig i APOLLO | • Yn ôl atodlen mudo Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (Terfysgaeth a Materion Cysylltiedig) |

## Blaenoriaeth Strategol 2

Gallu i Ymateb

**Erbyn Mawrth 2017:**

- Bydd gennym bolisïau / athroniaethau integredig ar waith sy'n ysgogi ein gweithrediad ac yn cefnogi ein pobl, gyda chefnogaeth mecanweithiau sicrwydd cryf
- Wedi dangos cynnydd yn ein galluogrwydd gweithredol trwy ein rhaglenni hyfforddiant ac ymarferion
- Defnyddio systemau awdurdod a rheoli ar draws y CNC
- Wedi darparu galluogrwydd adfer ar safleoedd categori (CAT) 1
- Wedi datblygu ein harweinwyr a rheolwyr gweithredol

## Canlyniad KPI

1. Gwella asesiadau galluogrwydd, yn cynnwys sicrwydd gweithredol, hyfforddiant a chanlyniadau ymarferion

| Elfennau allweddol i'w cyflawni | Metrigau allbwn | Amserlen |
|---|---|---|
| **Hyfforddiant, polisi a sicrwydd** | | |
| ➢ Polisïau ac athroniaethau integredig (2.1) | • Polisïau ac athroniaethau integredig wedi eu cynllunio a gweithredu | • 2015/16 |
| ➢ Mecanweithiau sicrwydd gweithredol (2.2) | • Gweithrediad mecanweithiau sicrwydd gweithredol | • 2014/15 |
| ➢ Cynnydd ym maint ac ansawdd ymarferion a phrofion (2.3) | • Nifer o swyddogion a ymarferir / amlder profion / canlyniadau | • I amserlen ymarferion a gytunwyd |
| ➢ Hyfforddiant gweithredol (2.4) | • Cyflawni hyfforddiant gweithredol yn unol â'r cynllun blynyddol | • Yn flynyddol i 2017 |
| ➢ Arweinyddiaeth weithredol a datblygu rheoli (2.5) | • Gwerthusiad wedi'r cwrs / adborth 360 gradd o ganlyniadau | • 2014/15 |
| ➢ Hyfforddiant ar y safle ac yn ystod shifft(2.6) | • Darparu hyfforddiant ar y safle ac yn ystod shifft yn llwyddiannus | • 2014-17 |
| ➢ Timau symudol hyfforddiant drylliau (2.7) | • Lansio timau symudol hyfforddiant drylliau yn llwyddiannus | • O 2014/15 |
| **Galluogrwydd adfer** | | |
| ➢ Galluogrwydd Tîm Adferiad Ymyrraeth (IRT) (2.8) | • Galluogrwydd IRT llawn wedi ei leoli yn safleoedd CAT 1 | • Medi 2014 |
| ➢ Galluogrwydd Cerbydau a Amddiffynnir yn Falistig (BPV) (2.9) | • Galluogrwydd BPV wedi ei leoli yn safleoedd CAT 1 | • Erbyn Mawrth 2015 |
| ➢ Galluogrwydd i frwydro mewn amgylchedd halogedig (FACE) (2.10) | • Galluogrwydd FACE wedi ei leoli yn safleoedd CAT 1 | • 2015/16 |
| **Galluogrwydd arall** | | |
| ➢ Datrysiad TG gorchymyn a rheoli (C2) (2.11) | • Gweithrediad llwyddiannus o ddatrysiad TG C2 (sylwer: prosiect yn amodol i gymeradwyaeth cyllid) | • Gweithrediad cyfnodol trwy gydol 2015/16 |
| ➢ Trawsnewid i 100% cwnstabliaeth AFO (2.12) | • 100% AFO | • I'w gadarnhau |
| ➢ Iechyd, lles a ffitrwydd (2.13) | • Dylunio a chyflawni iechyd, lles a chynllun ffitrwydd | • 2014-17 |
| ➢ Meysydd saethu Sellafield a Dounreay (2.14) | • Yn unol ag amserlenni rhaglenni gwelliant diogelwch safleoedd | • I'w gadarnhau |
| ➢ Cyfleusterau meysydd saethu a hyfforddiant yn ne Lloegr (2.15) | • Cyfleusterau meysydd saethu a hyfforddiant tymor hirach wedi eu sicrhau ac yn weithredol | • Sicrhawyd 2014/15<br>• Gweithredol erbyn 2016/17 |
| ➢ Paratoi ar gyfer gweithrediad amnewidiad Airwave (ESMCP) (2.16) | • Achos busnes i gefnogi mudo i ESMCP | • Achos busnes 2014/15 |

# Blaenoriaeth Strategol 3

Hyder Rhanddeiliaid

**Erbyn Mawrth 2017:**

- Byddwn wedi cynyddu hyder rhanddeiliaid yn y CNC ac yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda chwmnïau trwydded safle (SLCs), heddluoedd lleol a'n hadran nawdd
- Byddwn wedi gwella cydweithredu a gwaith partneriaeth ar draws y CNC
- Byddwn wedi cynyddu morâl, datblygiad, perfformiad a dargadw ein pobl
- Byddwn yn cyflawni ymgysylltu a chyfathrebu effaith uchel

## Canlyniad KPIs

1. Gwella boddhad rhanddeiliaid
2. Gwella canlyniadau arolwg staff

| Elfennau allweddol i'w cyflawni | Metrigau allbwn | Amserlen |
|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid allanol** | | |
| ➢ Gwefan allanol (3.1) | • Lansio'r wefan yn llwyddiannus | • 2014/15 |
| ➢ Strategaethau ymdrin â rhanddeiliaid allweddol (3.2) | • Gweithredu strategaethau | • 2014-17 |
| ➢ Gweithredu strategaeth cyfathrebu (3.3) | • I'w bennu unwaith y bydd y strategaeth wedi ei chymeradwyo | • 2014-17 |
| ➢ Cynllunio gweithlu a chostio cylch oes (3.4) | • Cytuno ar dybiaethau a chynlluniau (yn cynnwys y rhai ar gyfer tynnu allan ac adeiladau newydd) gyda rhanddeiliaid perthnasol | • Parhaus |
| ➢ Cytuno ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth (MOUs) a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (SLAs) gyda phob SLC a Heddluoedd lleol (3.5) | • MOUs ac SLAs yn weithredol | • 2014/15 |
| **Rhanddeiliaid mewnol** | | |
| ➢ Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP) (3.6) | • Achrediad IiP llwyddiannus | • Medi 2014 |
| ➢ Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu anweithredol perthnasol (3.7) | • Cyflawni cynllun hyfforddiant | • Parhaus |
| ➢ Gwella trefniadau rheoli perfformiad cyflogeion (3.8) | • Gweithrediad fframwaith perfformiad newydd i gyflogeion | • 2015/16 |
| ➢ Cynllunio a chyflawni strategaeth rheoli talent (3.9) | • Gweithredu strategaeth | • 2015/16 |
| ➢ Moderneiddio amodau a thelerau (3.10) | • Gweithredu amodau a thelerau newydd | • 2014-17 |
| ➢ Canolfan gyfathrebu a storfa wybodaeth fewnol (3.11) | • Ail-lansio mewnrwyd CNC yn llwyddiannus | • 2014/15 |

# Blaenoriaeth Strategol 4

## Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

### Erbyn Mawrth 2017:

- Byddwn wedi sicrhau cyflawniad effeithiol ein gwasanaethau cefnogaeth corfforaethol
- Byddwn wedi trawsnewid effeithlonrwydd ein busnes
- Byddwn wedi moderneiddio a gwella ein seilwaith gwybodaeth, cyfathrebu a thechnegol (TGCh) a gwella ei ddiogelwch
- Byddwn wedi gwella ein harweinyddiaeth a rheolaeth strategol


## Canlyniad KPIs

1. Lleihau canran o gost gwasanaethau cefnogaeth fesul swyddog gweithredol
2. Cyflawniad llwyddiannus ac amserol o ymrwymiadau'r cynllun strategol o fewn cyllideb

| Elfennau allweddol i'w cyflawni | Metrigau allbwn | Amserlen |
|---|---|---|
| **Busnes fel Arfer** | | |
| ➢ Cyflawni gwasanaethau cefnogaeth yn unol â safonau gwasanaeth a gofynion rheoleiddio (4.1) | • Cydymffurfiad â safonau gwasanaeth a gytunwyd a gofynion rheoleiddio | • Parhaus |
| **Rhaglen Trawsnewid Busnes** | | |
| ➢ Cynllunio strategaeth a busnes wedi alinio a fframwaith cynllunio a pherfformiad integredig (4.2) | • Fframwaith cynllunio a pherfformiad wedi ei fewnosod | • Mawrth 2015 |
| ➢ Strwythurau a galluogrwydd sefydliadol effeithiol ac effeithlon (4.3) | • Gweithrediad ailstrwythuro AD | • Rhagfyr 2014 |
| ➢ Cyflawni prosesu trafodion gan ddarparwr gwasanaethau a rennir (4.4) | • Mudiad llwyddiannus i ganolfan wasanaeth a rennir | • Yn fyw yn Hydref 2014 |
| ➢ Prosesau busnes effeithiol (4.5) | • Gweithredu gwelliannau busnes blaenoriaeth | • Mawrth 2015 |
| ➢ Fframwaith llywodraethu busnes newydd (4.6) | • Fframwaith llywodraeth wedi ei fewnosod | • Mawrth 2015 |
| ➢ Diwylliant busnes wedi ei fewnosod yn y sefydliad (4.7) | • Mesur dilysu allanol i'w bennu | • Mawrth 2017 |
| **Rhaglen Moderneiddio TG** | | |
| ➢ Cynllunio a chyflawni strategaeth a map ffordd TG (4.8) | • Strategaeth a map ffordd wedi eu cymeradwyo gan y gweithgor | • Cynllun erbyn Mehefin 2014;<br>• Gweithrediad cam wrth gam 2014-17 |
| ➢ Darparwr gwasanaeth TGCh a rhwydwaith newydd (4.9) | • Contractau gwasanaeth rhwydwaith/TGCh newydd | • 2015/16 |
| **Galluogwyr allweddol** | | |
| ➢ Rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth a rheoli ar gyfer arweinwyr corfforaethol (4.10) | • Gwerthusiad wedi'r cwrs / adborth 360 gradd o ganlyniadau | • 2015/16 |
| ➢ Peidio gweithredu cymal torri ym Mhencadlys Culham (4.11) | • Cymeradwyaeth yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac Uned Eiddo'r Llywodraeth | • Mehefin 2014 |
| ➢ Stiwardiaeth ac atebolrwydd ariannol cadarn (4.12) | • Cyfrifon anghymwys; adroddiad blynyddol a pharatoi cyfrifon wedi ei leihau o 1 wythnos | • Parhaus |

## Ein cyllidebau

CNPA yn ail godi ei gostau gweithredu i'r cwmnïau gweithredu niwclear y mae'n diogelu eu safleoedd.




Sylwer: Bydd £1.3 miliwn o bryniannau cyfalaf yn cael ei ariannu'n fewnol o dderbynion dibrisiant a gronnwyd ac nid yn ei ail godi i'r cwmnïau gweithredu niwclear.

# Rhaglenni gwariant a sylweddol arfaethedig

Mae'r adran hon yn sefydlu gwariant arfaethedig y CNPA rhwng 2014/15 a 2016/17 a chostau canlyniad a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14. Dangoswyd costau a gyllidwyd ar gyfer ein rhaglenni sylweddol yn 2014/15 ar wahân.

| Gwariant Arfaethedig (£000) | 2013/14 Rhagolwg | 2014/15 Cyllideb | 2015/16 Cyllideb | 2016/17 Cyllideb |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 67,677 | 73,806 | 77,684 | 75,281 |
| Treuliau nad ydynt yn staff | 20,220 | 24,702 | 28,099 | 29,309 |
| Gwariant cyfalaf | 2,161 | 3,313 | 3,000 | 3,000 |

| Rhaglenni Sylweddol (£000) | 2014/15 Cyllideb |
|---|---|
| Rhaglen Gwelliannau Gweithredol | 42.5 |
| Rhaglen Trawsnewid Busnes | 2.1 |

**Diffiniadau**

*Costau staff:* gwariant ar gyflogi swyddogion yr heddlu a staff sy'n cynnwys cyflogau, goramser a lwfansau, yswiriant gwladol cyflogwyr a chostau pensiwn

*Treuliau nad ydynt yn staff:* gwariant blynyddol ar yr holl gostau eraill ar wahân i staff, er enghraifft teithio a chynhaliaeth, TG a chyfathrebu, dibrisiant, hyfforddiant, gwasanaethau proffesiynol

*Gwariant cyfalaf:* gwariant ar asedau gyda gwerth parhaus, megis cerbydau ac offer

## Ein partneriaid

Rydym yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i'n helpu i gyflawni, yn cynnwys:

Department of Energy & Climate Change

Office for Nuclear Regulation
An agency of HSE

HMIC
Inspecting policing in the public interest

NDA
Nuclear Decommissioning Authority

Sellafield Ltd

EDF ENERGY

Dounreay Site Restoration Ltd

Research Sites Restoration Ltd

Magnox

INS
INTERNATIONAL NUCLEAR SERVICES